

Engage

Bringing people
and art together

Cynhyrchydd Creadigol

Lleolir o bell a/neu yn Swyddfa Llundain

Llawn amser

Cyflog: £32,830

Mae Engage, y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Addysg Oriolau'n dymuno recriwtio Cynhyrchydd Creadigol i ddatblygu a chyflwyno rhaglen a gweithgareddau Engage.

Dyma gyfle i ymuno ag Engage mewn cyfnod cyffrous o newid a datblygu a gweithio gyda'r Bwrdd, y Cyngor, aelodau a rhanddeiliaid ar draws y DU a thu hwnt i dyfu'r sefydliad. Mae Engage wedi cwblhau ailstrwythuro sefydliadol ac wedi datblygu cynllun gweithredu strategol ar gyfer 2021+ sy'n ymateb i anghenion newidiol y sector ymgysylltu a chyfranogi yn y celfyddydau gweledol yn y DU a thu hwnt. Rydym ni'n benderfynol o fod yn sefydliad hyblyg, gwydn sy'n ymrwymo i bartneriaethau creadigol. Fel Sefydliad Cymorth Sector gydag Arts Council England, bydd Engage yn cyflenwi Let's Create ac yn cefnogi'r sector ymgysylltu a chyfranogi yn y celfyddydau gweledol i ymdrin ag ystyriaethau pwysig, yn benodol diffyg amrywiaeth yn y gweithlu.

Mae rôl y Cynhyrchydd Creadigol yn cynnwys: datblygu, cyflenwi a gwerthuso amrywiaeth o raglenni a gweithgareddau i aelodau; datblygu partneriaethau creadigol ar gyfer cyflenwi prosiectau'n llwyddiannus; sicrhau bod adnoddau eithriadol ar gael i aelodau allu cyrchu a chreu profiad gwirfoddoli rhagorol i aelodau o Gyngor Engage a'r Cynrychiolwyr Ardal.

Dyma gyfle i fod yn rhan o dîm bach mewn corff celfyddydau gweledol cenedlaethol. Mae'r Cynhyrchydd Creadigol yn chwarae rôl allweddol yn datblygu a chyflenwi ein rhaglen i aelodau Engage. Bydd y deiliad swydd yn rheolwr prosiect ar gyfer ein gwasanaethau aelodaeth, rhaglenni a mentrau i sicrhau eu bod yn cael eu cyflenwi'n effeithiol gyda'r effaith fwyaf. Mae sgiliau rheoli prosiect rhagorol yn hanfodol, fel y mae'r gallu i feithrin partneriaethau a dysgu creadigol.

Rheolwr llinell y Cynhyrchydd Creadigol yw Cyfarwyddwr Engage ac mae'n gweithio'n agos gyda thîm staff Engage. Mae'r rôl yn galw am reoli llinell Cydlynnydd Gwobr Goffa Alexandra Reinhardt (ARMA) yn ogystal â Chydlynnydd MaxLiteracy. Mae hyblygrwydd yn ofynnol, gyda theithio achlysurol ar draws y DU a nifer o arosiadau dros nos.

Engage

Bringing people
and art together

Disgrifiad Swydd

Dyletswyddau

Dyletswyddau allweddol y swydd fydd:

- Datblygu, cyflenwi a gwerthuso rhaglen ragorol sy'n cyd-fynd â'n strategaeth ac yn defnyddio modelau hybrid (ar-lein, o bell ac wyneb yn wyneb) i gyflawni'r effaith / gwerth gorau i aelodau.
- Gwaith datblygu proffesiynol o safon uchel ar draws y sector, yn cynnwys hyfforddi, arwain a digwyddiadau rhwydweithio ar draws y DU sy'n cyflwyno canlyniadau dysgu gwerthfawr.
- Partneriaethau creadigol wedi'u rheoli'n dda sy'n cyfrannu at gyfenwi prosiectau
- Adnoddau defnyddiol, hygyrch hawdd eu cyrchu i aelodau.
- Perthnasoedd cryf gyda chyllidwyr prosiect / grant yn seiliedig ar ymddiriedaeth a chyflenwi prosiect rhagorol
- Cyflwyno prosiect gwirfoddoli rhagorol i aelodau Cyngor a Chynrychiolwyr Ardal.

Cyfrifoldebau

Strategaeth a Datblygu:

- Gweithio gyda Chyfarwyddwr, tîm, Bwrdd a Chyngor Engage i ddatblygu rhaglenni a strategaethau sy'n cyd-fynd ag anghenion aelodau a rhanddeiliaid.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr, Cydlynwyr Engage Cymru a'r Alban i ddatblygu rhaglenni ar draws y DU.
- Arwain ar raglenni yn Lloegr a rhaglenni dynodedig ar draws y DU.
- Sicrhau datblygu, cyflenwi, adolygu a gwerthuso rhaglenni Engage – gan ddefnyddio modelau hybrid (technolegau digidol, o bell ac wyneb yn wyneb) ac arloesi ac addasu'n barhaus fel bod ein rhaglen yn cyd-fynd ag anghenion aelodau.
- Datblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu effeithiol ag aelodau.
- Hyrwyddo dysgu a datblygu ar draws sector addysg y celfyddydau, gan sicrhau bod rhaglen hyfforddi ac arweinyddiaeth gref yn cael ei chyflenwi gan Engage.

Arweinyddiaeth a Rheoli

- Cefnogi a hyrwyddo diwylliant cynhwysol, perfformiad uchel ar draws Engage.
- Rheoli staff a gweithwyr llawrydd yn y tîm yn effeithiol gan ddarparu coetsio, cefnogaeth a rheolaeth yn unol â fframwaith perfformio'r sefydliad.
- Rheoli cyllidebau dirprwyedig yn effeithiol gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr a'r Rheolwr Cyllid
- Goruchwylio Adnodd Engage, gan gynnwys caffaeliadau, mewn cysylltiad â'r llywydwr Goldsmiths, Prifysgol Llundain.

Engage

Bringing people
and art together

Cyflenwi

- Sicrhau cynlluniau prosiect clir a rheolaeth effeithiol ar brosiectau allweddol (o fewn portffolio Engage). Gallai'r deiliad swydd adolygu rhaglenni cyfredol.
- Sicrhau gwerthuso ac adrodd effeithiol ar brosiectau gan gynnwys paratoi adroddiadau i'r Bwrdd a chyllidwyr.
- Gweithio gyda'r Cyfarwyddwr, Swyddog Datblygu Busnes a Marchnata a'r ymgynghorydd codi arian i nodi cyfleoedd cyllido, paratoi cynigion cyllido / ceisiadau grant a rheoli partneriaethau corfforaethol lle bo'n briodol.
- Darparu cymorth i Gyfarwyddwr Engage i reoli perthnasoedd aelodaeth allweddol gan gynnwys gweithio gyda'r Cyngor i ddatblygu a hyrwyddo'r rhaglen.
- Gweithio gyda Chyfarwyddwr Engage i sicrhau rheolaeth a chefnogaeth gwirfoddoli rhagorol i aelodau'r Cyngor a Chynrychiolwyr Ardal gan gynnwys recriwtio, sefydlu a chyfathrebu
- Arwain ar gynllunio a rheoli gweithgareddau hyfforddi, arwain a rhwydweithio a darparu cymorth gweinyddol fel bo angen ac ati.
- Sicrhau bod asesiadau risg a rheolaeth iechyd a Diogelwch priodol ar waith ar gyfer pob digwyddiad a phrosiect.
- Arwain ar gydlynu ein gwobrau a'n gweithgareddau cydnabyddiaeth (gan gynnwys Gwobr Marsh am Ragoriaeth mewn Addysg Oriellau) a darparu cymorth gweinyddol fel bo angen
- Gweithio gyda Chyfarwyddwr Engage i gefnogi'r Cyngor, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd a dilyn camau gweithredu.

Rhanddeiliaid:

- Sefydlu a rheoli partneriaethau creadigol sy'n dod ag arloesi ac ynni creadigol i'n rhaglen
- Arwain ar gefnogi Cynrychiolwyr Ardal gan gynnwys sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng grwpiau ardal, mynychu rhai cyfarfodydd grŵp ardal ac annog grwpiau ardal i raglennu gweithgareddau rhwydweithio a chymorth i gymheiriaid.
- Cyflogi a rheoli contractwyr a hwyluswyr llawrydd sy'n ymwneud â chyflenwi gweithgareddau Engage
- Rheoli a chynnal perthnasoedd allweddol gydag aelodau.

Cydymffurfio a Risg

- Sicrhau bod pob gweithgaredd prosiect a digwyddiad yn cydymffurfio'n llawn â pholisi a deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys iechyd a diogelwch, GDPR, cyfraith elusennau, codi arian ac ati
- Sicrhau bod y dechnoleg ddigidol yn ein rhaglenni, prosiectau a digwyddiadau'n ddiogel a bod diogelu bob amser yn ystyriaeth hanfodol
- Bod yn aelod arweiniol o staff yn Engage ar gyfer sicrhau ymarfer iechyd a diogelwch da, yn benodol wrth reoli digwyddiadau.

Engage

Bringing people
and art together

Arall

- Bod yn eiriolwr brwd dros y sector addysg celfyddydau a gwerthoedd y sefydliad
- Ymwneud â phrosiectau gydag aelodau a gweithgareddau o bob math fel bo'r angen.
- Bod yn hunangynhaliol yn weinyddol.
- Cynnal rhwydweithiau proffesiynol personol a hyrwyddo Engage ar lefel leol / genedlaethol.
- Gall fod angen gweithio ambell benwythnos a gyda'r nos.
- Mae angen hyblygrwydd rhesymol ar bob rôl yn Engage. Gan ein bod yn dîm bach iawn gallai fod angen i chi gyflenwi dros ddyletswyddau eraill ar adegau gan gynnwys pan na fydd aelodau eraill o staff ar gael neu ar wyliau.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n cyd-fynd â'r swydd.

Manyleb yr Unigolyn

Hanfodol

Cymwysterau

- Addysg i lefel gradd neu brofiad cyfatebol
- Tystiolaeth o DPP

Sgiliau / Cymwyseddau

- Gwybodaeth gynhwysfawr am ddisgwyliadau, arferion a thueddiadau'r sector celfyddydau gweledol
- Sgiliau rheoli prosiect a threfnu cryf
- Sgiliau digidol a TG cryf gan gynnwys amrywiaeth o dechnolegau digidol a llwyfannau cyfryngol – yn cynnwys eu defnydd wrth gyflenwi dysgu a rhaglenni
- Sgiliau rheoli digwyddiadau rhagorol, yn cynnwys dealltwriaeth gref o egwyddorion a gofynion technegol rheoli digwyddiadau.
- Lefelau uchel o greadigrwydd a gallu i arloesi a datblygu datrysiadau / partneriaethau creadigol.
- Gallu sefydlu perthnasoedd gwaith / rhwydweithiau gwaith cadarnhaol yn cynnwys partneriaethau masnachol
- Gallu cyfathrebu'n glir ac yn hyderus mewn amrywiol sianeli.
- Gallu ffynnu mewn amgylchedd prysur, cyflym wedi'i sbarduno gan newid.
- Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyflenwi profiad gwirfoddoli rhagorol.
- Gwybodaeth am yr holl ddeddfwriaeth berthnasol (h.y. iechyd a diogelwch)

Engage

Bringing people
and art together

Profiad

- Datblygu a rheoli rhaglen addysgol, ymgysylltu neu gyfranogi.
- Profiad helaeth o reoli rhaglen o brosiectau, digwyddiadau a/neu weithgareddau.
- Cynllunio, cyflenwi a gwerthuso digwyddiadau unigol.
- Rheoli cydweithwyr yn cynnwys rheoli perfformiad a choetsio.
- Rheoli perthnasoedd gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys Bwrdd, aelodau, cyllidwyr a phartneriaid. Cynnal asesiadau risg a chydlynu cyllidebau, systemau ariannol, a phrosesau'n effeithiol
- Llunio adroddiadau ysgrifenedig a chyflwyniadau i safon uchel
- Cyfarwydd ag amrywiol sianeli cyfathrebu yn cynnwys digidol / cyfryngau cymdeithasol.

Ymrwmo i egwyddorion amrywiaeth a chydraddoldeb a rhoi'r rhain ar waith ym mhob maes gwaith. Cyfforddus yn gweithio mewn amgylchedd dan arweiniad aelodau a'r gallu i rymuso a meithrin perthnasoedd adeiladol gyda'r Bwrdd ac aelodau o'r Cyngor.

Dymunol

Profiad

- Gweithio yn y sector celfyddydau gweledol a/neu mewn sefydliad aelodaeth.
- Gweithio gyda a/neu gefnogi gwirfoddolwyr i ffynnu yn eu rôl.

Telerau

Cyflog y swydd yw £32,830. Yn ddelfrydol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dechrau ym mis Hydref 2021.

Swydd lawn amser yw hon a disgwylir y bydd y Cynhyrchydd Creadigol yn gweithio 40 awr yr wythnos, rhwng yr oriau swyddfa craidd sef 9am-6pm Llun-Gwener. Mae'r rôl yn cynnwys gofyniad i fod yn hyblyg gan deithio'n achlysurol yn y DU a nifer o arosiadau dros nos. Mae gan staff yr hawl i gyfartaledd o hyd at 1 awr o egwyl bob dydd.

Mae Engage yn ymrwmo i gynnig gweithio hyblyg lle bo'n bosibl a thrwy gytundeb. Caiff y deiliad swydd weithio o bell. Mae man gwaith am hyd at un diwrnod yr wythnos ar gael yn swyddfa Engage yn Farringdon.

Gallai fod angen teithio achlysurol i fynychu digwyddiadau neu gyfarfodydd yn y DU ac yn rhyngwladol.

Yr hawl gwyliau arferol yw 25 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â gwyliau banc. Nid yw Engage yn talu goramser ond yn gweithredu polisi o amser i ffwrdd in lieu.

Engage

Bringing people
and art together

Y broses ymgeisio

I ymgeisio am y rôl, cwblhewch y canlynol a'u hanfon drwy ebost i recruitment@engage.org

- **Ffurflen Gais**
- **Llythyr Eglurhaol**, dim mwy nag un ochr A4, a ddylai ddisgrifio pam fod gennych chi ddiddordeb yn y swydd a sut mae'n cyd-fynd â'ch profiad hyd yma, yn ogystal ag unrhyw wybodaeth ychwanegol y teimlwch sy'n bwysig i gefnogi eich cais.
Mae'r llythyr yn gyfle i ddarparu gwybodaeth nad yw eisoes wedi'i chyflwyno yn y ffurflen gais
- **Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Dyddiad cau ymgeisio yw dydd Iau 2 Medi 2021, 2pm.

Gellir cynnal cyfweiliadau yn ystod wythnos dydd Llun 13 Medi neu ddydd Llun 20 Medi 2021.

Ymddiheurwn na all Engage gynnig adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y swydd, ebostiwch recruitment@engage.org. Byddwn yn hapus i ateb cwestiynau a helpu gydag unrhyw faterion ymarferol yn ymwneud â'ch cais.

Mae Engage yn ymrwmo i gydraddoldeb mynediad ar draws ei gyflogaeth. Rydym yn croesawu ceisiadau o bob carfan yn y gymuned. Os hoffech dderbyn y manylion ymgeisio mewn fformat arall, cyswyltwch ag Engage recruitment@engage.org

Engage

Bringing people
and art together

Engage

Engage yw'r rhwydwaith eiriolaeth a hyfforddi arweiniol ar gyfer addysg orielau. Rydym ni'n cefnogi addysgwyr celf, sefydliadau ac artistiaid i gydweithio gyda chymunedau mewn cyfnewidiadau deinamig, agored sy'n cynnig cyfle i bawb ddysgu a chael budd o'r celfyddydau. Mae gan Engage 700+ o aelodau yn y DU a thramor mewn c.270 o sefydliadau.

Mae Engage yn Sefydliad Cymorth Sector gydag Arts Council England ac yn derbyn cyllid ar gyfer ei raglenni yn yr Alban gan Creative Scotland ac ar gyfer y rhaglen yng Nghymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae cyllid hefyd wedi'i dderbyn hefyd gan ymddiriedolaethau a sefydliadau, unigolion a'r sector corfforaethol.

Bydd Engage yn gweithio mewn pum maes blaenoriaeth:

- Hyfforddi'r gweithlu
- Amrywio'r gweithlu
- Codi proffil a gwelededd ymarfer yr aelodau
- Cynnig cyfleoedd i aelodau drafod a llunio ymarfer
- Arwain eiriolaeth yn y sector

Caiff rhaglenni Engage Cymru ac Engage Scotland eu cyflenwi gan gydlynwyr rhaglen a'u cefnogi gan grwpiau datblygu gwirfoddol. Mae gan Engage rwydwaith o Grwpiau Ardal mewn naw rhanbarth yn Lloegr, sy'n darparu cymorth cymheiriaid a datblygu proffesiynol i aelodau.

Ceir rhagor o wybodaeth am Engage ar ein gwefan www.engage.org.

Llywodraethu a Staffio Engage

Mae Engage yn gwmni cyfyngedig â chofrestriad elusennol, ac fe'i llywodraethir gan Fwrdd (o 15 Ymddiriedolwr) sy'n cyfarfod pob chwarter a Chyngor (o c.30 o Gynrychiolwyr Ardal a Diddordeb Arbennig) sy'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn.

Tîm Engage yw:

Swyddfa Llundain

Cyfarwyddwr (ll/a)
Cynhyrchydd Creadigol (ll/a)
Swyddog Datblygu Busnes
a Marchnata (rh/a)
Cynorthwydd Gweithredol
(rh/a)

Aelodau eraill o dîm Engage (gweithio o bell)

Cydlynnydd Engage Scotland (rh/a)
Cydlynnydd Engage Cymru (ll/a ar hyn o bryd)
Golygydd Cyfnodolyn Engage, llawrydd (rh/a)
Cydlynnydd Gwobr Goffa Alexandra Reinhardt,
llawrydd (rh/a)
Cydlynnydd Gwobr MaxLiteracy, llawrydd (rh/a)
Cydlynnydd Youth Arts Scotland, llawrydd (rh/a)
Rheolwr Cyllid Interim (rh/a)
Ceidwad Cyfrifon Interim (rh/a)

Engage

Bringing people
and art together

Caiff Engage gefnogaeth gan:



Supported using public funding by
**ARTS COUNCIL
ENGLAND**



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

